Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Rhostryfan

**Rhostryfan**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL54 7LR**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Rhostryfan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Y.G. Rhostryfan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 84 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 63 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 9 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 4.1% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 22.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 90.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 01/03/2014 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Rhostryfan yn gymuned garedig a chartrefol. Mae disgyblion yn hynod gwrtais ac mae parch amlwg rhyngddynt â’r holl staff. Mae bron bob disgybl yn gofalu am eu cyfoedion, ac o ganlyniad, mae hyn yn cyfrannu’n arbennig iawn at y natur gynhwysol ac ethos hynaws sy’n bodoli.

Mae staff yn darparu ystod o brofiadau dysgu sy’n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i lwyddo. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o faterion cyfoes, ymweliadau a chysylltiadau’r gymuned i gysylltu dysgu disgyblion â chyd-destun yr ysgol â’r byd ehangach. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau craidd disgyblion, yn enwedig defnydd o’r iaith Gymraeg, yn gryfder nodedig. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ym mhob maes dysgu erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Gwnânt gynnydd arbennig o dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol, a'u medrau siarad a gwrando.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu llawer o gyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddysgu trwy brofiadau uniongyrchol. Maent yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu’n estynedig ar draws y meysydd dysgu. Mae perthynas weithio gref rhwng yr athrawon a’r cymorthyddion, ac maent yn hwyluso’r dysgu yn llwyddiannus. Er hyn, cyfyngedig yw’r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu trwy brofiadau dysgu rhydd ac ymchwiliol, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol, yn fodel rôl da iawn ac yn rhoi cyfeiriad strategol i’r ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy’n seiliedig ar werthoedd craidd. Mae arweinwyr yn adnabod blaenoriaethau gwella yn synhwyrol ac yn monitro a gwerthuso’r cynnydd yn gyson. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cyfrannu’n wybodus i’r gweithgareddau hunanwerthuso buddiol. Fodd bynnag, nid oes digon o ddyfnder yn nealltwriaeth aelodau’r corff llywodraethol ynglŷn â gofynion eu dyletswyddau a’u cyfrifoldebau.

## Argymhellion

A1 Datblygu a defnyddio'r mannau awyr agored yn gyson i gyfoethogi dysgu'r disgyblion

A2 Datblygu ymhellach rôl strategol y llywodraethwyr er mwyn iddynt fedru herio a dwyn yr ysgol i gyfrif

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar fynediad i’r ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfateb i’r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ym mhob maes dysgu erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn datblygu medrau gwrando arbennig. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac ymateb i gwestiynau yn bwrpasol. Maent yn llwyddo i ail-ddweud digwyddiadau cyfarwydd yn hyderus, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio map stori i alw i gof stori’r Hugan Fach Goch. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio cystrawennau naturiol Cymraeg wrth iddynt drafod digwyddiadau boddi pentref Tryweryn. Mae bron bob disgybl ar frig yr ysgol yn ymateb yn aeddfed i safbwyntiau eraill ac yn gwrando’n barchus ar gyflwyniadau llafar ei gilydd. Er enghraifft, maent yn gwrando’n dda ar gyfoedion wrth iddynt fynegi barn am weithio yn chwareli Llanberis ers talwm. Maent yn medru defnyddio geirfa addas wrth drafod amodau gwaith y pentrefwyr.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda iawn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau ac yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon ac yn hyderus, er enghraifft wrth ddarllen gwybodaeth ar sut i gadw’n saff dros gyfnod Calan Gaeaf. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi’n gywir i ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn effeithiol iawn i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Er enghraifft, wrth ddod o hyd i wybodaeth am Hedd Wyn a darllen cerdd, mae’r disgyblion yn gwneud dewisiadau uchelgeisiol ar sut i gyflwyno’u gwybodaeth.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda iawn wrth dynnu lluniau ac efelychu ysgrifennu llythrennau. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft wrth ysgrifennu portread Branwen. Dangosant ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd elfennau atalnodi a chywirdeb wrth sillafu. Erbyn Blwyddyn 4, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwarae â geiriau’n gelfydd wrth ddisgrifio effaith gwastraff plastig ar niweidio’r amgylchedd. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn drafftio eu gwaith yn effeithiol ac yn gwneud defnydd arbennig o gymariaethau ac idiomau i gyfoethogi eu gwaith. Maent yn ysgrifennu’n bwrpasol ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod o ffurfiau gwahanol yn Gymraeg a Saesneg, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygyl o berswâd i bobl ddarllen y Mabinogi.

Mae medrau mathemateg a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Ar waelod yr ysgol, maent yn adnabod rhifau i 10 ac yn cyfrif at ugain. Mae disgyblion yn y dosbarth sylfaen yn llwyddo i gyfrifo newid o 10c yn llwyddiannus wrth werthu nwyddau yn y siop. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae ganddynt afael dda ar ffeithiau rhif a data, er enghraifft wrth gyfrifo a chreu siart tali a graff wrth ddadansoddi

gwastraff sbwriel. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau datrys problemau i gymhwyso eu medrau rhif mewn cyd-destunau priodol. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion yn uniaethu â thrafferthion costau byw a datrys problemau i gymharu prisiau nwyddau archfarchnadoedd.

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau digidol yn fedrus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn rheoli teclyn rhaglenadwy yn hyderus ac yn defnyddio apiau i gofnodi rhannau'r corff yn annibynnol ac yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn creu a dehongli graff bloc yn annibynnol i adlewyrchu gwahanol fathau o gartrefi. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu gallu i gyfuno dulliau amlgyfrwng mewn ffyrdd cynyddol gymhleth. Maent yn creu testun, delweddau, graffigwaith, sain a fideo mewn cyfuniad er mwyn darparu cyflwyniadau effeithiol, er enghraifft wrth greu gwefan am Wcrain.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion yn arbrofi ag amryw gyfryngau i efelychu technegau artistiaid wrth ddatblygu eu medrau celf. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn mwynhau gweithgareddau celf ac yn gwneud dewisiadau dychmygus wrth ddethol adnoddau gwahanol i gyfleu darluniau diddorol. Enghraifft dda o hyn yw'r disgyblion hŷn yn defnyddio arddull arlunydd lleol yn llwyddiannus i arlunio tirwedd chwareli Dyffryn Nantlle.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae gan Ysgol Rhostryfan awyrgylch garedig a chartrefol dros ben. Mae disgyblion yn gofalu am eu cyfoedion, ac o ganlyniad, mae hyn yn cyfrannu'n arbennig iawn at y natur gynhwysol ac ethos hynaws sy'n bodoli. Mae'r berthynas rhwng staff a disgyblion yn gynnes a chefnogol. Mae bron bob disgybl yn dangos balchder yn eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn eu cymuned. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol ac maent yn gwrtais ac yn barchus tuag at oedolion ac ymwelwyr. Maent yn dangos gofal ac ystyriaeth tuag at ei gilydd ac yn cydweithio'n effeithiol gan ddangos parch at gyfraniadau eraill; er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth sylfaen yn trafod sut mae pobl yn wahanol.

Trwy'r gyd-ddealltwriaeth o foesau a gwerthoedd, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi petai rywbeth yn eu poeni. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi bod oedolion yn eu trin yn deg ac yn eu parchu. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu perthynas waith glòs sydd wedi'i seilio ar ymddiriedaeth a pharch.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau arweinyddiaeth o ddifri, gyda disgyblion yn aelodau brwd o gynghorau'r ysgol. Maent yn cael cyfleoedd niferus i gyfrannu'n gadarnhaol at weithgareddau a digwyddiadau sy'n cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi tuag at eraill ac maent yn awyddus i roi cymorth i'r rhai sydd mewn angen, er enghraifft wrth gynnal prynhawn cyfnewid gwisg ysgol yn ddiweddar i gefnogi teuluoedd yr ardal. Mae'r Cyngor Eco hefyd wedi hybu dulliau teithio cynaliadwy gan drefnu wythnos teithio i'r ysgol. Ar y cyfan, mae aelodau'r cynghorau yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn effeithiol.

Mae bron bob disgybl yn canolbwyntio'n dda iawn ac am gyfnodau estynedig. Maent yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gwblhau tasgau ac yn ymgymryd â thasgau'r dosbarth yn frwd. Mae bron bob disgybl yn defnyddio ystod o fedrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus wrth ateb cwestiynau amrywiol, ac wrth ddatrys problemau heriol. Maent yn datblygu eu medrau i weithio'n annibynnol yn ogystal â gweithio mewn grŵp yn effeithiol. Er enghraifft, wrth drafod cyflogau chwaraewyr pêl droed, mae disgyblion hŷn yn trin cyfraniadau eraill gyda pharch ac yn ymateb yn ddeallus iawn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar agweddau dysgu'r disgyblion sydd yn eu helpu i ddysgu trwy gydol eu bywydau.

Mae bron bob disgybl yn deall yr angen am ddiet cytbwys ac am fuddion cadw'n heini. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn deall gwerth maethlon amrywiol fwydydd. O ganlyniad, maent yn gwneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn y maent yn ei fwyta. Mae llawer o'r disgyblion yn cymryd rhan yn bwrpasol mewn clybiau ar ôl ysgol, er enghraifft clwb pêl droed wythnosol a chlybiau chwaraeon yr Urdd.

Mae cefnogi lles disgyblion yn flaenoriaeth yn yr ysgol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd sy'n effeithio ar eu hemosiynau. Enghreifftiau da iawn o hyn yw'r defnydd o'r corneli lles ac ymweliad wythnosol gan Millie y ci, i gefnogi disgyblion bregus gyda'u darllen. Trwy eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb a chynaliadwyedd, maent yn datblygu'n ddinasyddion moesol, gwybodus. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghanol yr ysgol yn ystyried neges y Beibl am warchod yr amgylchedd a chysylltu'r hyn y maen nhw'n gallu ei wneud yn eu hardal leol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at weithredu cwricwlwm sy'n adlewyrchu egwyddorion a diwylliant Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i greu a rhannu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm. Yn dilyn cyfnodau cynllunio ar y cyd ag ysgolion cyfagos ac wrth dreialu syniadau newydd, mae staff yn cynhyrchu cynlluniau effeithiol i ddarparu profiadau dysgu diddorol sy'n ystyried cyd-destun y gymuned leol. Er enghraifft, wrth gysylltu gwaith trigolion yn chwarel Llanberis, mae'r ysgol yn plethu gwaith artist ac awdures leol i ddatblygu medrau llythrennedd a chelfyddydau mynegiannol disgyblion hŷn.

Nodwedd ragorol o waith yr ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg a Saesneg y disgyblion. Mae staff yn fodelau rôl iaith arbennig, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddod yn siaradwyr hyderus a pharchus, sy'n awyddus i ddatblygu a defnyddio geirfa newydd yn y ddwy iaith. Mae bron pob gwers yn symud ar gyflymder da iawn, i ennyn diddordeb ac ysgogi disgyblion i weithio'n galed a chyflawni eu gorau. Cryfder arbennig yr ysgol yw'r berthynas broffesiynol rhwng staff a disgyblion. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn, ac o ganlyniad, maent yn teilwra gweithgareddau sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai a allai profi rhwystrau rhag eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn adeiladu ar wybodaeth flaenorol a datblygu medrau meddwl y disgyblion. Mae'r athrawon hefyd yn sicrhau cyflwyniadau a diweddglo diddorol sy'n ennyn brwdfrydedd a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd dysgu, sy'n groesawgar ac yn gynhyrchiol iawn.

Mae’r ystafelloedd dosbarth yn fannau cyffrous a byrlymus, lle mae disgyblion yn mwynhau eu dysgu yn fawr iawn. Mae’r ardaloedd dysgu yn ennyn diddordeb ac yn gafael yn nychymyg disgyblion yn fedrus. Ar draws yr ysgol, mae bron bob gweithgaredd yn cefnogi disgyblion i ddysgu’n gynyddol annibynnol ac i fagu hyder a meithrin dyfalbarhad wrth arbrofi â gwahanol adnoddau. Er enghraifft, mae staff yn darparu adnoddau gweledol ac ysgogol sy’n hyrwyddo medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol ym mhob ardal.

Ar y cyfan, mae’r athrawon yn cynllunio cyfleoedd dychmygus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn elwa o addysgu effeithiol ar draws yr ysgol, gyda staff gwybodus yn cyflwyno gwersi cyffrous. Bron ym mhob achos, mae athrawon yn gosod amcanion clir ar gyfer gwersi a gweithgareddau, ac yn sefydlu disgwyliadau uchel ar gyfer dysgu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r profiadau dysgu a gynllunnir yn galluogi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau y tu allan i’r dosbarth.

Gwna’r ysgol ddefnydd da o weithdrefnau asesu i olrhain cynnydd disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Ar draws yr ysgol, mae cyfnodau adborth a chynllunio cyson rhwng staff a disgyblion i adolygu cynnydd a lles unigolion. Mae’r rhain yn fuddiol iawn er mwyn addasu'r ddarpariaeth i gefnogi cynnydd a chlustnodi gwelliant pellach. Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae athrawon yn monitro dysgu disgyblion yn effeithiol ac yn darparu cymorth ac adborth llafar i wella eu gwaith ac ymestyn y dysgu. Mae’r disgyblion yn dechrau datblygu'r gallu i ddewis tasgau sy'n briodol i'w lefel gallu a gwneud dewisiadau yn y camau nesaf yn eu dysgu. Mae disgyblion Blwyddyn 2 hyd at ddiwedd Blwyddyn 6 yn cael cyfleoedd gwerthfawr i wneud awgrymiadau ar sut i wella eu gwaith eu hunain a chefnogi eu cyfoedion cyn derbyn adborth gan eu hathrawon. Mae disgyblion hŷn yn dewis lefel yr her wrth ymgymryd â’u gweithgareddau ac yn cael eu hannog i roi cynnig ar y lefel nesaf os ydynt yn cwblhau eu tasgau’n dda.

Mae’r diwylliant o gydweithio a thrafodaethau disgybl-i-ddisgybl yn aml yn arwain at awyrgylch gwaith byrlymus a bywiog yn y dosbarthiadau.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar iawn. Mae ethos yr ysgol a’r cyfnodau myfyrdod boreol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r staff yn arwain trafodaethau bwriadus am amrywiaeth o faterion megis parchu eraill, cydnabod gwahaniaethau a chynaliadwyedd. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y gwahaniaeth rhwng da a drwg ac yn gwybod beth sydd yn gyfiawn ac yn deg. Mae’r staff yn annog disgyblion i ystyried safbwyntiau eraill yn sensitif, i gydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch. Mae’r gwerthoedd hyn yn cael eu hatgyfnerthu’n gelfydd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau monitro ac olrhain presenoldeb cadarn, sy’n effeithio’n bositif ar ganran presenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol. Yn ogystal,

mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion emosiynol. Maent yn blaenoriaethu gofal emosiynol y disgyblion yn llwyddiannus iawn drwy weithgareddau ymarferol yn yr ardaloedd lles. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at yr amgylchedd dysgu gofalgar a chymwynasgar sy'n nodweddiadol o'r ysgol. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymgymryd â sesiynau lles corfforol. Mae'r rhain yn ysgogi'r disgyblion i gadw'n heini ac i werthfawrogi pwysigrwydd hynny. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn deall beth yw effaith ymarfer ar guriad eu calon. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Er enghraifft, maent yn manteisio ar sesiynau dawnsio gan gwmni allanol ac yn cystadlu'n rheolaidd yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd. Trwy bartneriaeth â hyfforddwr arbenigol, mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd buddiol i hyfforddi disgyblion i feicio'n ddiogel.

Mae trefniadau olrhain a monitro cynnydd disgyblion unigol a grwpiau yn briodol. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt trwy raglenni cymorth. Mae'r rhaglenni hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn. Mae'r cydlynydd ADY, ynghyd â'r holl staff, yn sicrhau bod dynodi, olrhain a chymorth yn briodol. Mae cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un tudalen yn cynnwys targedau addas sy'n cael eu gweithredu'n briodol gan athrawon a chynorthwywyr i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Mae amrywiaeth o bartneriaethau ag asiantaethau yn cynnig cymorth effeithiol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae adolygiadau o gynnydd disgyblion yn arwain at ddealltwriaeth gadarn gan athrawon o anghenion y disgyblion.

Mae dull cynhaliol yr ysgol yn sicrhau perthnasoedd cryf rhwng disgyblion, eu teuluoedd a'r ysgol. Mae'r staff yn trefnu nifer o ddigwyddiadau mewn partneriaeth â'r gymuned sy'n atgyfnerthu'r ymdeimlad o berthyn ac yn helpu'r disgyblion i barchu a gofalu am eraill, er enghraifft wrth drefnu a chynnal Ras Rhostryfan a chefnogi Cyngor y Pentref yn flynyddol i gynnal carnifal diwrnod hwyl. Mae hyn yn gryfder amlwg yn yr ysgol sydd yn cyfrannu at y naws gymunedol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol glir sy'n cael ei rhannu'n effeithiol a'i gwireddu'n llwyddiannus trwy'r ysgol. Caiff ei chefnogi gan dîm ymroddgar o staff addysgu a chymorth. Mae cyfraniad pob un yn cael ei werthfawrogi'n llawn. Maent yn darparu profiadau cyfoethog i fodloni anghenion lles a dysgu pob disgybl mewn amgylchedd ysgogol Cymreig sy'n hyrwyddo balchder at eu bro a'u gwlad. Mae hyn yn greiddiol i weledigaeth yr ysgol.

Mae holl gymuned yr ysgol yn ymfalchio yn eu harwyddair, "Ein hysgol yn galon i'n cymuned". Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at annog disgyblion, staff a phartneriaid yr ysgol i berchnogi a gwireddu'r weledigaeth gyda balchder. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer cadw pawb yn ddiogel, sy'n wybyddus i holl randdeiliaid yr ysgol. Mae gan y staff berthynas dda iawn â'r rhieni. Maent yn cael eu hannog i wneud cyfraniadau ymarferol at waith yr ysgol. Mae rhieni'n werthfawrogol o'r cyfathrebu cryf sydd rhyngddynt a'r ysgol. Mae meddylfryd gofalgar ac ethos teuluol yn cael lle blaenllaw yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod trefniadau hunanwerthuso cadarn wedi eu sefydlu er mwyn gwerthuso'r ddarpariaeth a'r dysgu. Mae'r staff yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth amrywiol yn effeithiol i gasglu a choladu gwybodaeth berthnasol am berfformiad yr ysgol. Mae gan y pennaeth ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r cysylltiad rhwng y gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn gadarn. Mae cynllun gwella'r ysgol yn ddogfen fanwl a chynhwysfawr sy'n wybyddus i holl staff yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn rheoli'r cyllid yn ofalus ac yn trefnu adnoddau'r ysgol yn effeithiol. Mae'n gwneud defnydd da o grantiau gwahanol sydd wedi eu dyrannu i'r ysgol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion i ddarparu rhaglenni ymyrraeth i ddisgyblion sydd angen cymorth pellach â'u dysgu. Yn ogystal, mae gwariant grantiau yn caniatàu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol wrth ymateb i flaenoriaeth genedlaethol. Er enghraifft, wrth gefnogi staff i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a'r rhaglen drawsnewid anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn adeiladu ar sylfaen dda wrth gyflwyno'r cwricwlwm diwygiedig ac yn elwa llawer o gydweithio ag ysgolion cyfagos ar brosiectau lleol. Mae'r cyd-drafod rhwng holl staff yr ysgol, a phartneriaethau ysgolion yr ardal leol, yn elfen gref o'r cynllunio.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer hybu iechyd a lles y disgyblion trwy gynlluniau yfed a bwyta'n iach. Enghraifft dda o hynny yw gweithredu ar argymhelliad y cyngor ysgol i ddarparu llefrith i bob disgybl am ddim. Mae'r ysgol yn hybu diwylliant diogelu yn effeithiol, ac mae'r staff yn derbyn ystod addas o hyfforddiant i gefnogi hynny, er enghraifft diogelwch ar y we. Mae'r holl staff yn hybu arferion cynaliadwyedd trwy'r ysgol. Elfen gadarnhaol o hyn yw darparu cyfleoedd i ddisgyblion ailddefnyddio teganau, llyfrau neu ddillad wrth eu cyfnewid.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol a chymeradwyol iawn o holl weithgareddau'r ysgol. Maent yn derbyn adroddiadau tymhorol gan y pennaeth sy'n amlygu bywyd a gwaith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n briodol at weithgarwch monitro ac mae hyn yn eu helpu i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am safonau dysgu'r disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn cydweithio ag arweinwyr a'r disgyblion yn effeithiol wrth sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, nid oes strwythur i gyfarfodydd yr is bwyllgorau perthnasol. O ganlyniad, nid oes digon o ddyfnder yn nealltwriaeth yr aelodau o ofynion eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

Cynhelir cyfarfodydd staff ysgol gyfan yn wythnosol i drefnu a gweithredu ar faterion craidd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hwyluso ac yn darparu hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd i'r holl aelodau staff. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon a chymorthyddion sy'n seiliedig ar eu hanghenion proffesiynol unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Er enghraifft, mae staff yn cydweithio ar brosiectau lles.

Mae perthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgol a'r gymuned. Mae arweinwyr yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol i hysbysu rhieni am ddigwyddiadau yn rheolaidd. Maent hefyd yn cynnal nosweithiau agored i rannu egwyddorion addysgeg. Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau gwerthfawr gan y Gymdeithas Rhieni a'r gymuned leol sydd wedi buddsoddi swm sylweddol er mwyn prynu cyfarpar digidol i gefnogi'r ddarpariaeth cymhwysedd digidol. Mae ethos o gydweithio effeithiol a byrlymus yn cyfrannu'n sylweddol at ethos cynnes a chroesawgar yr ysgol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/11/2022